**ATODIAD 1**

1) A yw'r Adran Addysg wedi ystyried sefydlu fflyd ei hun a’r gost o wneud hyn?

*Yn dilyn peilot llwyddiannus yn ystod Tymor Yr Hydref eleni, lle treialwyd y defnydd o gerbyd fflyd i’r pwrpas o gludiant addysg gyfochrog a chludiant oedolion, bydd yr adran addysg yn ymchwilio ymhellach ac yn peilota cludiant addysg mewn rhai ardaloedd. Rhydd hyn gyfle i gyfrifo costau ac i fapio posibiliadau at y dyfodol.*

2) Pa hawliau sydd gan yr awdurdod a'r darparwyr cludiant i ddod a cytundebau i ben?

Mae amodau o fewn y cytundebau cludiant yn galluogi’r awdurdod a’r darparwr i ddod a cytundebau cludiant i ben. Mae’r amodau’n amrywio yn ddibynnol ar y cytundeb.

3) Pa fath o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i yrwyr tacsi ac i bobl sy'n hebrwng plant, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig?

*Darperir hyfforddiant ar ddiogelu plant trwy gyfrwng e-fodiwlau pan gwneir cais am fathodyn gyrrwr, ceir tystysgrif ar ôl cwblhau yr hyfforddiant fel tystiolaeth. Bydd angen adnewyddu’r dystysgrif bob 3 mlynedd yn gyfochrog ac adnewyddu’r bathodyn gyrrwr.*

4) Beth yw'r trefniadau DBS ynglŷn â chludwyr addysg?

*Mewn perthynas a gyrwyr tacsis yr awdurdod, mae’r canlynol mewn grym:*
*“Diweddaru trwydded gyrrwr bob 3 mlynedd felly diweddaru DBS yr un pryd. Yn ogystal bydd tystysgrif prawf meddygol yn angenrheidiol. Cedwir cofnod ar fasdata yr adran drwyddedu tacsis, a bydd rhybudd/llythyr yn cael ei anfon allan mewn da bryd er mwyn atgoffa bod angen diweddaru.*

*Mewn perthynas a gyrwyr bysus yr awdurdod, mae’r canlynol mewn grym:*
*“Diweddaru tystysgrif DBS bob 3 mlynedd. Cedwir cofnod o’r data ar daenlen yn yr adran gludiant.*

*Mewn perthynas a gyrwyr hebryngydd teithio yr awdurdod, mae’r canlynol mewn grym:*
*“Diweddaru tystysgrif DBS bob 3 mlynedd. Diweddaru tystysgrif Cymorth Cyntaf yr un pryd. Cedwir cofnod o’r data ar daenlen yn yr adran gludiant.*

5) Beth yn union yw'r rheolau ynglŷn â thrafnidiaeth am ddim?

*Mae’r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n benodol berthnasol i ddarpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru; gyda 'Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol' (Y Canllawiau) a gyhoeddwyd yn 2014.*
*Mae'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol*

- *Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir ymhellach o'r ysgol addas agosaf;*
- *Darparu cludiant o’r cartref i’r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy’n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir ymhellach o'r ysgol addas agosaf.*

6) A oes unrhyw fwriad i adolygu'r pellter cymhwyso ar gyfer cludiant am ddim?

Byddwn yn adolygu y pellteroedd cymhwyso wrth adolygu’r polisi cludiant, ac yn dilyn arweiniad yn y gofynion statudol wrth wneud hynny.

7) A yw’r Polisi Cludiant yn mynd y tu hwnt i’r gofyn cyfreithiol?

Yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y gofynion statudol, mae’r awdurdod yn cynnig seddi gweigion fel rhan o’r cynllun seddi gwag sydd yn cynhyrchu incwm ychwanegol ac yn hwyluso cludiant i rai dysgwyr. Rhoddir Tocyn Teithio Ôl-16 am ddim i gludo dysgwyr i’r ysgol neu’r coleg er nad oes dyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud hynny.

8) Sut mae polisïau a gorwariant cludiant addysg Gwynedd yn cymharu gydag awdurdodau eraill?

Mae trafodaethau cenedlaethol diweddar yn awgrymu fod awdurdodau ar draws Cymru’n wynebu’r un heriau parthed cynnydd mewn costau cludiant addysg, ac mae’r darlun yn debyg iawn ar draws siroedd gwledig Cymru sydd â heriau daearyddol tebyg i Wynedd.

9) Beth yw'r trefniadau pan mae ysgol yn cau? A oes ymgais yn cael ei wneud i sicrhau bod plant yn mynd i'r ysgol agosaf?

Mae dynodi ysgol amgen ar gyfer sefyllfa pan fo ysgol yn cau yn rhan o’r broses o adolygu dyfodol ysgol. Mae costau cludiant yn rhan o’r ystyriaethau, ac mae arbedion refeniw a geir o gau ysgol yn cyfrannu at gynnydd mewn unrhyw gostau cludiant yn sgil y broses gau